

Fersiwn	CY4
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Ebrill 2024

Y Berthynas Waith
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Employee Relations
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol



RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 444503
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Medi 2016
Swyddog Adolygu	Grŵp Diwygio Polisiâu
Dyddiad diwygio	Ebrill 2026
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Medi 2016
HANES ADOLYGU	
Dyddiad	Adolygwyd gan
Hydref 2016	Grŵp Diwygio Polisiâu
Tachwedd 2019	Grŵp Safonau'r Gymraeg AD
Tachwedd 2023	Grŵp Diwygio Polisiâu AD
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch-reolwyr Adnoddau Dynol	Medi 2016
Rheolwyr y Cyngor	Medi 2016
Cabinet	Ddim yn berthnasol

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	1
2.	Egwyddorion Allweddol.....	1
3.	Proses	1
4.	Addasiadau i Gyflogau a Chofnodi Gwyliau Blynyddol Ychwanegol.....	2
5.	Sut Mae Didyniadau'n Cael Eu Cyfrifo.....	3
6.	Ystyriaethau Ychwanegol	4
6.1	Trefniadau Ildio/Aberthu Cyflog	4
6.2	Effaith ar Bensiwn	5
6.3	Effaith ar Daliadau a Budd-Daliadau Statudol.....	5
6.4	Gweithwyr Sy'n Absennol Oherwydd Salwch.....	5
7.	Opsiwn Tynnu'n Ôl O'r Cynllun.....	6
8.	Cyfrifoldebau	6
8.1	Rhan Y Rheolwyr:.....	6
8.2	Cyfrifoldeb Y Gweithiwr.....	7
	Atodiad A.....	8

1. **CYFLWYNIAD**

Bwriad Cyngor Rhondda Cynon Taf yw sicrhau ei fod yn amddiffyn iechyd a lles ei weithwyr a diben y cynllun yma yw cynorthwyo gweithwyr ynglŷn â chydbwyso eu hymrwymiaidau gartref ac yn y gwaith. Pwrpas y Cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol yw rhoi hyblygrwydd ychwanegol i weithwyr mewn perthynas â gwyliau sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw. Bydd y gost yn sgil hyn yn cael ei didynnu o gyflog y gweithiwr dros weddill y flwyddyn wyliau blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod y gweithiwr yn parhau i dderbyn cyflog misol, ar gyfradd is, i adlewyrchu'r absenoldeb di-dâl.

Nod y cynllun yw gostwng niferoedd o absenoldebau a gwella lefelau morâl a chymhelliant trwy alluogi gweithwyr i brynu gwyliau ychwanegol lle nad yw hyn yn cael effaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

2. **EGWYDDORION ALLWEDDOL**

Nod y Cyngor yw cynorthwyo gweithwyr i gydbwyso eu hymrwymiaidau gartref ac yn y gwaith trwy roi'r cyfle i "brynu" hyd at 10 diwrnod ychwanegol o wyliau (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser). Mae'r cynllun yn hyblyg gan fod modd cymryd y 10 diwrnod mewn un bloc neu ar ddiwrnodau unigol fan hyn a fan draw. Serch hynny, rhaid eu cymryd fel diwrnodau llawn.

Yn yr un modd â phob trefniant gweithio hyblyg, does dim hawl awtomatig i weithwyr brynu gwyliau ychwanegol. Caiff pob un o'r holl geisiadau ei ystyried a'i drafod gan reolwyr ar sail achos busnes, ac er mai'r bwriad yw caniatáu cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl i weithwyr cyflogedig, gwasanaeth o ansawdd a safon yw'r flaenoriaeth.

Lle nad oes modd cymeradwyo ceisiadau, bydd y rheolwr yn rhoi esboniad am hynny ac yn ystyried opsiynau eraill gyda'r gweithiwr.

3. **PROSES**

Mae'r cynllun yma'n rhoi cyfle i "brynu" hyd at 10 diwrnod (pro-rata lle bo hynny'n briodol) o wyliau blynyddol ychwanegol ym mhob blwyddyn wyliau blynyddol, gyda didyniadau mewn cyflog wedi'u gwasgaru dros weddill y flwyddyn honno. Byddai gwasanaeth di-dor y gweithiwr yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau di-dâl yma.

Fydd cymeradwyo'r gwyliau blynyddol di-dâl ddim yn cael ei warantu. Bydd hynny bob amser yn amodol ar ofynion gweithredol y gwasanaeth a fydd bob tro yn dod yn gyntaf.

Mae modd i weithwyr gyflwyno cais am brynu gwyliau ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn wyliau blynyddol. Serch hynny, rhaid i weithwyr wneud hynny o leiaf chwe wythnos cyn cymryd y gwyliau ychwanegol. Bydd didyniadau o gyflog y gweithiwr yn cael eu cymryd yn raddol yn ystod y flwyddyn wyliau blynyddol sy'n weddill.

Yn yr un modd â phob cais am wyliau, rhaid cael cymeradwyaeth y rheolwyr cyn y bydd modd cymryd absenoldeb ychwanegol.

Pe bai gweithiwr yn gadael ei swydd gyda'r Cyngor, byddai gan y Cyngor awdurdod ysgrifenedig i adennill y swm llawn sy'n ddyledus o'i daliad cyflog terfynol.

4. ADDASIADAU I GYFLOGAU A CHOFNODI GWYLIAU BLYNYDDOL YCHWANEGOL

- 4.1 Pan fydd gweithiwr yn gwneud cais i brynu gwyliau ychwanegol (gweler Atodiad A), bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn ei gyflog net naill ai o'r Gyflogres ym Mai (pan gafodd y cais ei wneud ddiwedd y flwyddyn wyliau flaenorol) neu am weddill y flwyddyn wyliau (am unrhyw gais a ddaw i law yn ddiweddarach yn y flwyddyn) dan gynllun ildio (aberthu) cyflog.
- 4.2 Pan fydd gweithiwr yn gofyn am brynu gwyliau blynyddol ychwanegol, bydd gostyngiad i'w gyflog misol am weddill y flwyddyn wyliau blynyddol gyfan. Bydd didyniadau o gyflogau yn cychwyn yn y cyfnod talu cyntaf sydd ar gael ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, a bod asesiad o enillion wedi'i wneud.
- 4.3 Bydd y cyflog misol newydd yn cael ei gyfrifo a bydd Adnoddau Dynol yn rhoi'r manylion i'r gweithiwr cyn gynted â phosibl ar ôl cael cymeradwyaeth ei reolwr llinell a bod adran y Gyflogres wedi cynnal asesiad o enillion. Bydd yr amserlen ar gyfer ad-dalu yn cael ei rhoi hefyd.
- 4.4 Dylai gweithwyr nodi bod llenwi a chyflwyno cais i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (Atodiad A) yn golygu eu bod nhw'n rhoi eu caniatâd i addasu eu cyflogau lle y bo'n briodol, os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo.
- 4.5 Bydd didyniadau ar gyfer y flwyddyn wyliau blynyddol yn seiliedig ar y cyflog ar yr adeg y bydd y rheolwr yn cymeradwyo'r cais am wyliau ychwanegol. Os bydd cyflog gweithiwr yn newid yn ystod blwyddyn wyliau blynyddol, bydd y swm prynu gwyliau blynyddol ychwanegol y cytunwyd arno **yn aros yr un fath.**

- 4.6 Rhaid i'r rheolwr llinell ychwanegu'r gwyliau blynyddol sydd wedi'u prynu at y tab 'Gwyliau/Holidays' ar system iTrent (o dan 'Hawl Ychwanegol/Additional Entitlement') ac at gerdyn gwyliau blynyddol y gweithiwr, a rhaid i'r ddau gyfanswm gytuno â'i gilydd.
- 4.7 Fydd unrhyw wyliau ychwanegol sydd wedi'u prynu sydd heb eu defnyddio erbyn diwedd y cyfnod gwyliau blynyddol (31 Mawrth) ddim yn cael eu dwyn ymlaen.

5. SUT MAE DIDYNIADAU'N CAEL EU CYFRIFO

- Rhannau'r gwir gyflog gwirioneddol â 365 er mwyn cyfrifo tâl un diwrnod (ac addasu ar gyfer diwrnodau gwaith rhan-amser lle bo hynny'n berthnasol);
- Cyfrifwch gost y gwyliau blynyddol ychwanegol drwy luosi 1 diwrnod o dâl blynyddol â nifer y diwrnodau sy'n ofynnol;
- Didynnwch gost y gwyliau blynyddol ychwanegol o'r cyflog blynyddol;
- Rhannwch y cyflog blynyddol wedi'i addasu â nifer y misoedd sy'n weddill yn y flwyddyn wyliau blynyddol i roi cyflog misol diwygiedig

Enghreifftiau			
	Amser llawn	Rhan amser	Rhan amser
	Rhywun yn gweithio 37 awr yr wythnos ar Radd 8 (£24,717) prynu 3 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol	Rhywun yn gweithio 20 awr yr wythnos ar Radd 8 (£24,717) prynu 3 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol	Rhywun yn gweithio 20 awr yr wythnos (dros 5 diwrnod) ar Radd 8 (£13,361) prynu 3 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol
Cyfrifwch y gyfradd ddyddiol 'flynyddol': rhannwch y cyflog blynyddol gwirioneddol â 365 diwrnod ac addaswch ar gyfer nifer y diwrnodau a weithiwyd yr wythnos.	$(£24,717/365) \times (5/5 \text{ diwrnodau a weithiwyd}) = £77.72 \text{ y dydd}$	$(£13,361/365) \times (5/3 \text{ diwrnodau a weithiwyd}) = £61.01 \text{ y dydd}$	$(£13,361/365) \times (5/5 \text{ diwrnodau a weithiwyd}) = £36.61 \text{ y dydd}$
Cyfrifwch gost y gwyliau ychwanegol sy'n ofynnol	3 diwrnod x £67.72 = £203.16	3 diwrnod x £61.01 = £183.03	3 diwrnod x £36.61 = £109.83
Tynnwch gost y gwyliau blynyddol ychwanegol o'r cyflog blynyddol	£24,717 - £203.16 = £24,513.84	£13,361 - £183.03 = £13,177.97	£13,361 - £109.83 = £13,251.17
Mae'r pensiwn sy'n daladwy yn seiliedig ar y cyflog llai	£24,513.84	£13,177.97	£13,251.17
Nifer y diwrnodau a ychwanegwyd ar y cerdyn gwyliau	3 diwrnod	3 diwrnod	3 diwrnod

6. YSTYRIAETHAU YCHWANEGOL

6.1 Trefniadau ildio/aberthu cyflog

Mae prynu gwyliau ychwanegol yn drefniant ildio cyflog ac mae'n amrywio telerau ac amodau cyflogaeth y gweithiwr trwy gydol y cytundeb. Mae'n gwneud hynny trwy leihau cyflog gros y gweithiwr yn ôl gwerth y diwrnodau gwyliau blynyddol ychwanegol sydd wedi'u prynu ac yn ei dro yn cynyddu nifer y gwyliau blynyddol.

Ar ôl i'r swm llawn gael ei dalu'n ôl, bydd telerau ac amodau cyflogaeth (h.y. cyflog) y gweithiwr yn mynd yn ôl i'r rheiny oedd yn berthnasol cyn y trefniant ildio cyflog.

6.2 Effaith ar bensiwn

Bydd gweithwyr sy'n prynu gwyliau ychwanegol ac felly'n cael cyflog is yn talu cyfraniadau pensiwn is. Caiff gweithwyr ddewis talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol er mwyn prynu'r pensiwn "coll".

Bydd yr adran gyflogres yn ysgrifennu at y gweithiwr, yn ei ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ar ôl i'r cais i brynu gwyliau ychwanegol gael ei gymeradwyo, gan roi'r ffigur tâl pensiynadwy a manylion y cynllun. Mae modd i chi gael ffurflen gais i brynu pensiwn coll, ynghyd â gweld y gost, yma: <http://www.lgpsmember.org/>. Bydd y gost (mewn un taliad) yn cael ei chymryd o'ch cyflog ar ddiwedd mis Awst.

Os yw'r gweithiwr yn dewis prynu'r pensiwn "coll", rhaid iddo wneud hyn cyn pen 30 diwrnod o ddyddiad y llythyr oddi wrth yr adran gyflogres sy'n rhoi gwybodaeth am y tâl pensiynadwy ac am y cynllun. Bydd y gost yn cael ei rhannu - 1/3 gweithiwr a 2/3 cyflogwr.

Noder: Os yw'r cais am bensiwn 'coll' yn sgîl prynu gwyliau ychwanegol yn cael ei gyflwyno ar ôl 30 diwrnod, y gweithiwr fydd yn gyfrifol am dalu'r gost gyfan.

6.3 Effaith ar Daliadau a Budd-daliadau Statudol

Rhaid i weithwyr gofio y gall cymryd rhan mewn cynllun ildio cyflog effeithio ar eu cymhwyster ar gyfer taliadau a buddion statudol (er enghraifft, Credyd Treth Gwaith, Credyd Plant, Pensiwn y Wladwriaeth ac eraill megis Tâl Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu Statudol). Mae hyn oherwydd nad ydych chi'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) ar y didyniad ildio cyflog ac mae rhai buddion yn seiliedig ar y cyfraniadau rydych chi'n eu gwneud.

Dylai gweithwyr sy'n cael y budd-daliadau yma ac sy'n ystyried prynu gwyliau blynyddol ychwanegol gysylltu â'u darparwr budd-daliadau i ddeall sut y gallai'r cynllun effeithio arnyn nhw.

6.4 Gweithwyr sy'n absennol oherwydd salwch

Fydd dim modd cymryd didyniadau oddi wrth weithwyr y mae ei hawl tâl salwch i gyd wedi cael ei defnyddio. Lle mae hyn yn wir, byddai'r didyniadau'n dod i ben ac yn parhau pan fydd y gweithiwr yn dychwelyd i'r gwaith ac yn cael ei dalu. Os yw ei swydd yn dod i ben, bydd y swm yn cael ei adennill fel gordaliad.

7. OPSIWN TYNNU'N ÔL O'R CYNLLUN

Ar ôl cytuno ar gais, bydd y cynllun yn parhau am weddill y flwyddyn wyliau. Serch hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, gall hyn gael ei ganslo yn y modd canlynol:

- Rhaid i'r gweithiwr gwrdd â'i reolwr a rhoi rhesymau dros wneud cais i dynnu'n ôl. Os caiff y cais ei dderbyn, bydd y rheolwr llinell yn rhoi gwybod i Adnoddau Dynol fel bydd modd newid y cofnod yn y system a diweddarau'r wybodaeth gyflogres.
- Bydd y gyflogres yn gwneud y cyfrifiadau angenrheidiol ac yn penderfynu, gan ddibynnu ar faint o wyliau ychwanegol sydd wedi'u prynu a'u cymryd, a oes arian yn ddyledus i'r gweithiwr neu i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r gweithiwr beth yw'r sefyllfa o ran yr uchod, ac os oes angen, bydd rhaid cytuno ar sut i ad-dalu unrhyw ordaliad.

8. CYFRIFOLDEBAU

8.1 Rhan y rheolwyr:

- Asesu'r cais am brynu gwyliau blynyddol ychwanegol, gan gysylltu â'r garfan Adnoddau Dynol lle bo angen, ac ystyried ymarferoldeb gweithredol ac unrhyw effaith caniatáu'r cais; gan gynnwys sicrhau y bydd modd darparu ar gyfer yr absenoldeb ychwanegol yn ystod blwyddyn wyliau'r gweithiwr;
- Trin pob cais yn deg;
- Rhoi gwybod i'r gweithiwr beth yw'r penderfyniad cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais, a hynny yn iaith o ddewis y gweithiwr
- Rhoi gwybod i Adnoddau Dynol am fwriad y gweithiwr i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol;
- Sicrhau bod cofnod gwyliau'r gweithiwr yn cael ei reoli'n gywir trwy gydol ei flwyddyn wyliau er mwyn sicrhau bod yr holl wyliau blynyddol ychwanegol yn cael eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn wyliau.

Noder: Mae pob cais yn amodol ar gymeradwyaeth. Mae'n rhaid i enillion gael eu hasesu ac (yn ôl y gyfraith) rhaid iddyn nhw beidio â chwmpo islaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol presennol.

Ddylai rheolwyr ddim cymeradwyo unrhyw 'absenoldeb di-dâl' ar gyfer staff y gwrthodwyd 'prynu gwyliau ychwanegol' iddyn nhw oherwydd bod eu henillion yn is na'r trothwy Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae 'absenoldeb di-dâl' hefyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad ac mae gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod enillion yn cael eu diogelu.

8.2 Cyfrifoldeb y gweithiwr

Rhaid i weithwyr lenwi a chyflwyno'r cais i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol, a hynny heb fod yn hwyrach na 6 wythnos cyn dechrau arfaethedig eu cyfnod o wyliau ychwanegol.

- Rhaid i weithwyr gofio nad oes hawl awtomatig i brynu gwyliau ychwanegol.
- Rhaid i weithwyr ddilyn Cynllun Gwyliau Blynyddol y Cyngor wrth wneud cais am wyliau blynyddol ychwanegol.
- Rhaid i weithwyr ddeall na fydd modd i'r Cyngor gymeradwyo unrhyw geisiadau newydd am brynu gwyliau ychwanegol hyd nes iddyn nhw dalu am y gwyliau ychwanegol blaenorol.
- Rhaid i weithwyr lofnodi datganiad i gadarnhau: (i) y bydd y swm yn cael ei ddiynnu o'u cyflog fel cynllun ildio cyflog; ac (ii) os bydd yr unigolyn yn gadael ei swydd, bydd y Cyngor yn adennill unrhyw falans sy'n weddill o'r cyflog neu'r taliadau terfynol.
- Rhaid i weithwyr sicrhau eu bod nhw wedi ystyried holl oblygiadau ariannol y didyniadau misol o'u cyflog.
- Deall bod cais yn amodol ar gymeradwyaeth ac y bydd enillion y gweithiwr yn cael eu hasesu ac na ddylai (yn ôl y gyfraith) gwympto islaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol presennol.
- Rhaid i weithwyr reoli eu gwyliau drwy gydol eu blwyddyn wyliau er mwyn sicrhau bod yr holl wyliau blynyddol ychwanegol wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn wyliau

ATODIAD A

FFURFLEN GAIS I BRYNU GWYLIAU BLYNYDDOL YCHWANEGOL

Rhaid i weithwyr ddarllen a chytuno â'r telerau canlynol cyn cyflwyno'r ffurflen yma:

- Rwy'n deall bod y penderfyniad i ganiatáu imi brynu gwyliau blynyddol ychwanegol yn ôl disgrisiwn y Cyngor yn llwyr
- Rwy'n deall y gall fy hawl i daliadau a budd-daliadau statudol (gan gynnwys buddion pensiwn) gael eu heffeithio
- Rwy'n derbyn bod rhaid defnyddio'r holl wyliau ychwanegol rwy wedi'u prynu erbyn 31 Mawrth yn ystod y flwyddyn wyliau berthnasol
- Rwy'n deall, o ganlyniad i dderbyn cyflog is, y bydda i'n talu llai o gyfraniadau pensiwn yn ystod cyfnod y didyniadau cyflog
- Rwy'n deall y bydd modd i mi gyflwyno cais i brynu pensiwn coll yn ôl drwy ddewis talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol
- Rwy'n deall bod fy nghais yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr ac asesiad enillion y Gyflogres. Mae'n rhaid i enillion gael eu hasesu ac (yn ôl y gyfraith) rhaid iddyn nhw beidio â chwmpo islaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol presennol.
- Rwy'n deall na chaiff fy rheolwr gymeradwyo unrhyw gais dilynol am 'absenoldeb di-dâl' os caiff fy nghais i 'brynu gwyliau ychwanegol' ei wrthod oherwydd bod fy enillion yn is na'r trothwy Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae absenoldeb di-dâl hefyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad ac mae gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod enillion yn cael eu diogelu.

	Rhaid i'r gweithiwr roi'r manylion yma	
Enw llawn y gweithiwr		
Cyfeiriad y gweithiwr		
Rhif staff y gweithiwr		
Teitl y swydd		
Gwasanaeth/adran/gweithle		
Oriau gwaith yn ôl y contract		
Nifer y dyddiau yn yr wythnos y mae'r gweithiwr yn gweithio fel arfer yn ôl y contract		
Nodwch eich rhesymau dros y cais am wyliau ychwanegol yn ôl disgrisiwn		
Llofnod y gweithiwr	<p>Hoffwn i wneud cais i brynu _____ diwrnod (10 diwrnod ar y mwyaf, pro rata ar gyfer staff rhan amser) o wyliau blynyddol ychwanegol am y flwyddyn yn unol â'r cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol.</p> <p>Rwy'n deall y bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn fy nghyflog ar gyfer y flwyddyn wyliau berthnasol ac rwy'n rhoi caniatâd i'r Cyngor wneud didyniadau o'm cyflog, gan gynnwys unrhyw daliadau y gall fod angen eu hadennill. Rwy'n deall bod y penderfyniad i ganiatáu imi brynu gwyliau blynyddol ychwanegol yn ôl disgrisiwn y Cyngor yn llwyr</p>	
	Llofnod:	Dyddiad:

	Rhaid i'r gweithiwr roi'r manylion yma (parhau)	
Sut bydd y gweithiwr yn talu am y gwyliau ychwanegol	* Cyfandaliad untro yn unig ym misneu mewn rhandaliadau cyfartal dros gyfnod o mis Rhaid eu had-dalu erbyn diwedd y flwyddyn wyliau blynyddol berthnasol Dileu yn ôl yr angen Llofnod..... Dyddiad.....	
	<u>Rheolwr i lenwi'r adran yma</u>	
Mae'r cais wedi cael ei	gymeradwyo/wrthod * * Dileu yn ôl yr angen	
Rhowch eich cyfiawnhad busnes os yw'r cais wedi'i wrthod		
Llofnod y Rheolwr Llinell		
Llofnod y Prif Swyddog		Dyddiad
Dyddiad anfon y cais at Adnoddau Dynol		

Dyddiad diwygio: Ebrill 2024